# Cylchlythyr CD: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i heffaith hyd yn hyn...



## Cymru – lle nad gair jargon yn unig yw llesiant, ond y gyfraith

Wrth i mi ddod i ddiwedd fy nhymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru, rwyf wedi bod yn myfyrio ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r bobl sy'n helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Cwricwlwm addas i'r dyfodol, paneli solar yn arbed £1m y flwyddyn i ysbyty mewn biliau trydan, rhewi adeiladau ffyrdd a channoedd o bobl yn derbyn incwm sylfaenol – dyma rai o'r newidiadau y mae Cymru'n eu gwneud.

---

"Beth mae Cymru yn ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory"

***Y Cenhedloedd Unedig***

---



Rwy’n hynod falch o’r hyn sydd wedi’i gyflawni yn y saith mlynedd byr ers i’r Ddeddf gael ei phasio, ac er nad oes angen dweud bod llawer mwy o waith i’w wneud o hyd, mae pobl ar draws Cymru eisoes yn gweld llawer o effeithiau cadarnhaol.

Ac mae hynny i raddau helaeth oherwydd mudiad hyrwyddwyr newid ym mhob rhan o'n Gwlad, mewn gwahanol sectorau a sefydliadau, gyda chyllidebau a chefndiroedd gwahanol, sy'n gweithredu heddiw er mwyn sicrhau gwell yfory.

**Felly, beth yw rhai o’r newidiadau cadarnhaol hyn?**




Mae'r Ddeddf wedi helpu i greu **strategaeth genedlaethol 10 mlynedd ar gyfer gofal iechyd**, gan ganolbwyntio ar fesurau ataliol a gweledigaeth hirdymor o gadw pobl yn iach, nid trin salwch yn unig.

Mae defnyddio'r Ddeddf fel lens ar gyfer sut rydym yn ystyried iechyd hefyd yn ein helpu i gydnabod effeithiau tlodi, tai, cyflogaeth, yr amgylchedd ac addysg ar ein llesiant.

O Gyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio i gynnig teithiau cerdded fel math o therapi naturiol, i welyau ymateb brys COVID-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sy'n cael eu hailddefnyddio i fynd i'r afael â thlodi gwelyau plant; mae sut rydym yn cadw pobl yn iach wedi'i gysylltu'n gynhenid â'n hamgylchedd, ein heconomi a'n diwylliant.

---


"Mae'n bleser synhwyro pobl yn cysylltu â byd natur, ac yn aml yn cysylltu â'u hunain ac i nifer sylweddol o gerddwyr, maen nhw wedi dod yn flaengar iawn at drefn iach...

Mae'r effaith gadarnhaol y mae cerdded yn ei chael ar ein llesiant yn ddigamsyniol, ac rwy'n hynod falch o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – mae wedi sancsiynu llesiant pobl ac wedi rhoi cefnogaeth swyddogol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o helpu pobl i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol."

***Wil Stewart, warden Parc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi***

---




O ran sut mae'r Ddeddf yn dylanwadu ar **drafnidiaeth yng Nghymru**, mae arian yn cael ei fuddsoddi mewn teithio cynaliadwy gyda chynnydd o 63% mewn buddsoddiad teithio llesol yng nghyllideb ddiwethaf Llywodraeth Cymru.

O atal traffordd rhag cael ei hadeiladu trwy warchodfa natur, i oedi adeiladu ffyrdd newydd, mae Cymru ar flaen y gad o ran symud oddi wrth opsiynau trafnidiaeth carbon-drwm ac yn lle hynny yn blaenoriaethu teithio llesol, carbon isel.

Mae Cymru eisoes ar frig y siartiau gyda'r drydedd gyfradd ailgylchu uchaf yn y byd, ond mae gennym hefyd darged i fod yn **ddiwastraff erbyn 2050** ac os ydym am gyflawni hynny, mae angen inni gynyddu'r pocedi o waith anhygoel sy'n digwydd ar draws y wlad a'i wneud yn norm.

Mae peth o'r gwaith ysbrydoledig sydd eisoes yn digwydd yn cynnwys gwaharddiad Llywodraeth Cymru ar blastigau untro, caffis atgyweirio a llyfrgelloedd o bethau sy'n ymddangos ar draws Cymru a'r ffordd sydd wedi'i hailwynebu'n gynaliadwy a wnaed gyda 4.3 tunnell o glytiau babanod ar yr A487 ger Aberaeron.






Ym myd addysg, mae fy ngalwadau am adolygiad o gymwysterau TGAU wedi helpu i arwain at ailwampio’r arholiadau, ac mae Cymru bellach wedi mabwysiadu cwricwlwm newydd a yrrir gan bwrpas gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn greiddiol iddo. Mae’r cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais ar iechyd meddwl, eco-lythrennedd a datblygu pobl ifanc gyflawn â gwybodaeth foesegol sy’n barod ar gyfer y dyfodol.

---

“Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ein helpu i feddwl am y tymor hir. Mae wedi gwneud i ni i gyd gymryd cam yn ôl a gofyn beth sy’n wirioneddol bwysig i’n plant.”

***Peter Evans Pennaeth Ysgol Bro Banw, Rhydaman***

---

Dim ond blas bach yw hwn o’r ffordd y mae’r Ddeddf yn trawsnewid ein ffordd o weithio a’n bywydau yng Nghymru, ond mae’r pocedi bach hyn o arfer da ar draws y wlad yn rhoi gobaith i mi y bydd rhoi llesiant a bydd meddwl hirdymor wrth wraidd pob penderfyniad yn dod yn arferol i ni.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut mae’r Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru ar ein gwefan yma.

Mae gennym ni waith i’w wneud o hyd i sicrhau ein bod yn cyflawni uchelgeisiau’r Ddeddf yn llawn.

Dyna pam rydw i'n gofyn i chi - **sut ydych chi'n gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory?**




















Ymunwch â mi ac eraill di-ri ar draws Cymru i ***rannu sut ydych chi'n rhan o'r Ddeddf.***

- **Ar gyfryngau cymdeithasol?** Postiwch sut rydych chi, eich cymuned a/neu sefydliad yn gweithredu heddiw er mwyn cael gwell yfory gan ddyfynnu "Rwy'n rhan / Rydym yn rhan o'r Ddeddf".

- **Yn eich cylchlythyr neu fewnrwyd?** Rhannwch sut rydych chi'n gwreiddio'r Ddeddf yn eich gwaith neu gymuned, a sut rydych chi "yn rhan o'r Ddeddf".
- **Neu eisiau gwybod mwy?** Cyfeiriwch bobl at ein tudalen we cenedlaethaurdyfodol.cymru/Effaith-y-Ddeddf i ddysgu mwy am y newid cadarnhaol y mae'r Ddeddf yn ei ysbrydoli.

Drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr wrth imi orffen fy nghyfnod yn y swydd, byddwn yn taflu goleuni ar rai o'r polisïau a'r prosiectau newydd gwych hyn, ac ar y bobl sy'n gwneud iddynt ddigwydd; a myfyrio ar sut y gallwn adeiladu ar hyn yn 2023 a thu hwnt gyda'r Comisiynydd newydd, a fydd yn dechrau ar ei waith ar 1 Chwefror.

## Sut olwg fyddai ar y byd heddiw pe bai gan bob gwlad gyfraith sy'n amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol?

Dyna ofynnais i arweinwyr byd-eang, gweithredwyr a llunwyr polisi tra yn COP27, Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig.

Y tro cyntaf i 'COP' (Cynhadledd y Pleidiau) fod yn Affrica; ac roedd cynhadledd eleni yn wahanol am nifer o resymau eraill hefyd, gan gynnwys yr argyfwng costau byw parhaus, rhyfel yn Wcràin a'r nifer uchaf erioed o bobl wedi'u dadleoli ar draws y byd.

Wrth gynrychioli Cymru, tynnais sylw at sut yr ydym yn gwneud pethau'n wahanol gyda'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ac roeddwn yn falch o gael y cyfle i siarad â gwledydd eraill a dysgu ganddynt am heriau a chyfleoedd a rennir.

COP27 hefyd oedd y tro cyntaf i Pafiliwn Ieuenctid fod yn bresennol, lle ymunais â Dr Omnia el Omrani (Llysgennad Ieuenctid cyntaf y COP) a Vladislav Kaim (Cynghorydd Ieuenctid Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd) ym Mhanel Nexus Iechyd yr Hinsawdd – digwyddiad lle wnes i drafod sut y gall dull cenedlaethau'r dyfodol helpu i fynd i'r afael â bygythiadau byd-eang cydgysylltiedig newid yn yr hinsawdd a dirywiad mewn iechyd cyhoeddus.











Ymunais hefyd â lansiad Parth Glas COP27 o’r ‘Resilience Frontiers Pavilion’, digwyddiad sy’n dod â chynrychiolwyr ieuenctid ynghyd i dynnu sylw at y rôl y mae bwyd yn ei chwarae wrth frwydro yn erbyn yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Mater a oedd yn flaenllaw ym meddyliau llawer o bobl oedd cyfiawnder hinsawdd; a ddiffinnir fel *“dod o hyd i atebion i’r argyfwng hinsawdd sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau neu’n amddiffyn y byd naturiol, ond sy’n gwneud hynny mewn ffordd sy’n creu byd tecach, mwy cyfiawn a mwy cyfartal yn y broses”.*

Mae cyfiawnder hinsawdd yn bwysig oherwydd nid yw newid hinsawdd yn ‘fater i’r dyfodol’ bellach; mae’n effeithio ar y rhai mwyaf agored i niwed, ac yn hollbwysig, y rhai sy’n cyfrannu leiaf at newid yn yr hinsawdd, nawr.

Er enghraifft, yn Nwyrain Affrica, amcangyfrifir bod 17 miliwn o bobl yn wynebu ansicrwydd bwyd oherwydd sychder.

Yng Nghymru, rydym yn gweld llifogydd cynyddol aml a thywydd pwerus yn gadael dros 245,000 o gartrefi ac eiddo mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Dyna 1 o bob 8 cartref; nifer na fydd ond yn cynyddu wrth i lefel y môr godi.






Dim ond dwy enghraifft yw’r rhain, ond rydym yn gweld yr anawsterau hyn ar draws y byd, ac ni fyddant yn dod i ben yn fuan. Mae’r argyfyngau hinsawdd a natur yma, maen nhw’n digwydd nawr – dyna pam y byddai pob gwlad yn y byd yn elwa o ymagwedd cenedlaethau’r dyfodol.

Mae gennym ni oll ddyletswydd i amddiffyn pobl sydd heb eu geni eto, rhag y niwed y byddant yn ei ddioddef o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Oherwydd er bod y flaenoriaeth yn COP yn cynyddu ac yn gweithredu ar yr ymrwymiadau y mae gwledydd yn eu gwneud i leihau allyriadau, y gwir syml yw nad yw'r rhan fwyaf o systemau llywodraethu ar draws y byd yn ystyried buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Dylai fod yn ofynnol i bob gwlad, pob gwleidydd, pob busnes ddangos sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar y dyfodol – mae gennym fframwaith i wneud hynny yng Nghymru y mae gweddill y byd yn gyffrous yn ei gylch ac yn gallu dysgu oddi wrtho.





---

*Ni allwn ddal ati i "edrych ymlaen at y gynhadledd nesaf", a methu â gweld y darlun ehangach a pheidio â throi uchelgais yn weithredu go iawn.*

***Mae COP yn ymwneud â gweithredu, mae'n angenrheidiol.***

---

## Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru / cenedlaethaurdyfodol2020.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales